# YMGEISIO AM SWYDD

Bydd naill ai ffurflenni cais safonol neu borth ar-lein yn cael eu defnyddio i gasglu'r wybodaeth berthnasol er mwyn asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer y rôl dan sylw.

## YMGEISWYR MEWNOL

- ✓ rhaid llenwi ffurflen gais safonol neu ddogfen amgen fel y nodir yn yr hysbyseb;
- ✓ rhaid llenwi Ffurflen Gwybodaeth Ychwanegol – cliciwch yma; bydd hyn yn cadarnhau bod eu ceisiadau yn gymwys i'w hystyried ymhellach ar ôl i'r ymgeiswyr gwblhau eu cyfnod prawf ac, er enghraifft, heb rybuddion disgyblu neu allu heb eu cwblhau;
- ✓ rhaid iddynt fod wedi cwblhau eu cyfnod prawf yn llwyddiannus i fod yn gymwys i wneud cais am swyddi gwag mewnol, ac eithrio mewn achosion lle mae Rheolwr Llinell yn cyflwyno achos busnes cryf i ofyn am awdurdodiad dewisol gan Brif Swyddog;
- bydd y rhai sy'n destun ymchwiliad am faterion disgyblu neu allu yn gymwys i wneud cais am swyddi gwag mewnol; fodd bynnag, os ydynt yn llwyddiannus, ni fydd penodiad yn cael ei gadarnhau hyd nes y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau heb ddyfarnu unrhyw gosb, ac eithrio mewn achosion lle byddai oedi mewn penodiad yn amharu ar y gwasanaeth a ddarperir;
- ✗ ni fyddant yn gymwys i wneud cais os ydynt wedi cael unrhyw rybuddion o dan brosesau disgyblu neu allu os yw dyddiad cau'r broses ymgeisio berthnasol yn dod o fewn cyfnod eu cyfnod rhybudd;
- ✗ am ddyrchafiad dros dro neu sylweddol, ni fydd unigolion yn gymwys i wneud cais yn ystod cyfnod eu cyfnod rhybudd. Nid yw hyn yn cynnwys rhybuddion anffurfiol na Nodiadau ar gyfer y Ffeil (sgyrsiau wedi'u dogfennu mewn perthynas â mân faterion).

## PERTHNASOEDD PERSONOL

Er y cydnabyddir y gall perthnasoedd personol fodoli neu ddatblygu o fewn y gweithle, mae'r Gwasanaeth yn ceisio cynnal ei fusnes gyda'r safonau uchaf o onestrwydd a phroffesiynoldeb. Dim ond pan fydd y canlynol ddigwydd y bydd perthnasoedd personol yn peri pryder:

- camddefnydd o safle ymddiriedaeth y cyflogai;
- torri'r safonau priodoldeb gofynnol;
- cyfaddawdu o ran safonau;
- gwrthdaro buddiannau;
- y potensial i niwed ddigwydd i weithwyr;
- y posibilrwydd o dorri cyfrinachedd.

Bydd pob ymgeisydd, p'un a oes ganddo berthynas bersonol â gweithiwr y Gwasanaeth ai peidio, yn dilyn y broses recriwtio safonol ac yn cyflwyno cais a fydd yn cael ei ystyried ar sail meini prawf gwrthrychol penodol. Pryd bynnag y canfyddir perthnasoedd personol yn ystod y broses recriwtio a dethol, bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod y broses hon yn annibynnol o duedd tuag at neu yn erbyn yr ymgeisydd ar sail y berthynas bersonol fel y'i datganwyd.

Mae'r Polisi Perthnasoedd Personol yn y Gweithle - cliciwch yma yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan unrhyw berthnasoedd sydd ganddynt â gweithwyr presennol y Gwasanaeth ar eu ffurflen gais. Gofynnir hefyd i ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd am gyfweliad ddatgelu unrhyw berthynas sydd ganddynt ag aelodau'r panel cyfweld; rhaid darparu'r wybodaeth hon cyn cynnal y cyfweliad, fel y gellir ystyried unrhyw gamau priodol.

Yn yr un modd, rhaid i weithwyr y Gwasanaeth sy'n ymwneud ag unrhyw weithgaredd recriwtio sydd â pherthynas bersonol ag ymgeisydd ddatgan hyn wrth y rheolwr sy'n arwain y broses cyn gynted ag y daw'n ymwybodol o gais yr ymgeisydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'n briodol fel arfer i'r cyflogai beidio â chael unrhyw ran bellach yn y broses ddethol, er mwyn sicrhau mai dim ond ar sail wrthrychol a theg y gellir gwneud unrhyw benderfyniadau recriwtio.

Rhoddir ystyriaeth deg i:

- yr effaith y gallai unrhyw berthynas sydd wedi'i datgan ei chael ar yr amgylchedd gwaith;
- unrhyw risgiau neu wrthdaro buddiannau o ganlyniad;
- unrhyw gamau y gellid eu cymryd i ddatrys y ffactorau hyn.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o nodiadau gwybodaeth sy'n cwmpasu'r maes pwnc hwn; mae dolenni i'r holl ddogfennau ar gael trwy glicio yn ôl i'r hafan.

| |
|---|
| Argymhellir bod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu bob blwyddyn; fodd bynnag, efallai y bydd angen ei hadolygu'n gynt yng ngoleuni unrhyw newid rheoliadol a ddaw i rym yn y cyfamser. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog (Adran)** | Adnoddau Dynol | **Fersiwn** | 1.0 |
| **Adolygwyd ddiwethaf gan (deiliad y swydd)** | Pennaeth Adnoddau Dynol | **Dyddiad yr adolygiad diwethaf** | 7fed Rhagfyr 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Dyddiad adolygu a argymhellir** | 7fed Rhagfyr 2026 |